



Cystadleuaeth Next Tourism Generation 2021

Cwestiynau Cyffredin

Gweler isod rhestr o gwestiynau sydd gennych o bosibl am y gystadleuaeth.

Cefndir y gystadleuaeth

Beth yw Cystadleuaeth y Next Tourism Generation?

Dyma gystadleuaeth a drefnwyd gan y [Next Tourism Generation Alliance](#) yng Nghymru, sy'n gweithio o [Brifysgol Metropolitan Caerdydd](#). Trefnwyd y gystadleuaeth ar y cyd â [Chymdeithas Twristiaeth](#) Cymru a [PLANED](#).

Mae'r gystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr a phobl ifanc a allai fod yn chwilio am yrfa ym maes twristiaeth, lletygarwch neu faes cysylltiedig.

Nod y gystadleuaeth yw helpu i hyrwyddo dyfodol sgiliau ar gyfer datblygu twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru.

Pa adnoddau sydd ar gael i sefydliadau i hyrwyddo'r gystadleuaeth ymysg eu myfyrwyr, eu gweithwyr neu eu cyn weithwyr?

Beth am fwrw golwg ar y wefan, lle gallwch weld dolenni i ganllawiau gwneud cais a ffurflenni gwneud cais, yn ogystal â chopi o'r datganiad i'r wasg a'r poster.

URL y wefan yw : <https://nexttourismgeneration.eu/ntg2021-cymraeg>.

Os hoffech gael unrhyw adnoddau penodol i'ch helpu i hyrwyddo'r gystadleuaeth, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill, mae croeso i chi anfon e-bost atom drwy ntg@planed.org.uk.

Dydw i ddim yn gymwys i roi cynnig ar y gystadleuaeth ond hoffwn gymryd rhan, beth alla i ei wneud?

Mae yna ffyrdd y gall pobl gymryd rhan, ac rydyn ni'n arbennig o awyddus i bobl helpu i hyrwyddo'r gystadleuaeth i bobl eraill sy'n gymwys, gan gynnwys teulu, ffrindiau neu gydweithwyr.

Edrychwch ar y wefan i gael rhagor o wybodaeth, ac os ydych chi'n defnyddio Twitter, dilynwch [@NTGWales](https://twitter.com/NTGWales) <<https://twitter.com/NTGWales>> a gallwch ail-drydar eu gwybodaeth am y gystadleuaeth ymysg eich dilynwyr.

Os ydych chi'n credu bod yna ffordd benodol y gallwch chi helpu, e-bostiwch ntg@planed.org.uk.

Cymhwysedd y gystadleuaeth

Pwy sy'n cael rhoi cynnig ar y gystadleuaeth eleni?

Gall myfyrwyr mewn sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a phobl ifanc sy'n gweithio yn y sector twristiaeth roi cynnig ar y gystadleuaeth.

I fyfyrwyr, mae angen iddyn nhw fod yn astudio mewn sefydliadau Addysg Uwch neu Addysg Bellach yng Nghymru ar gwrs sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, lletygarwch neu ddigwyddiadau.

Dylai'r rheiny sydd mewn gwaith fod rhwng 16 a 25 oed a dylent fod mewn cyflogaeth lawn amser, rhan-amser neu dymhorol gyda busnes yng Nghymru ym maes twristiaeth, teithio, lletygarwch, digwyddiadau, treftadaeth neu fwyd a diod. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ar ffyrlo ar adeg y cyflwynir cais, yn ogystal â'r rhai a allai fod wedi'u diswyddo'n ddiweddar o swydd gymwys oherwydd COVID.

Am fanylion penodol, darllenwch y meini prawf cymhwysedd yn y canllawiau gwneud cais ar y wefan.

Rwy'n fyfyrwr ond dydw i ddim yn siŵr a yw fy nghwrs yn gymwys, sut mae gwybod hynny?

Mae myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau rhan-amser, llawn amser neu gyrsiau dysgu o bell yn gymwys, cyn belled â bod y cwrs yn cael ei gynnal gan sefydliad Addysg Uwch neu Addysg Bellach yng Nghymru.

Mae popeth yn iawn os yw eich cwrs yn cynnwys elfennau (yn cynnwys lleoliadau gwaith neu debyg) y tu allan i Gymru, cyn belled â bod y sefydliad rydych chi wedi cofrestru ynddo yng Nghymru.

Gallai llawer o gyrsiau fod ag elfennau sy'n ymwneud a'r sector twristiaeth mewn un ffordd neu'r llall, yn cynnwys cyrsiau sy'n ymwneud yn benodol â thwristiaeth a theithio, lletygarwch, digwyddiadau, treftadaeth neu fwyd a diod. Mae yna lawer o gyrsiau eraill a fydd yn arbennig o berthnasol hefyd ac os hoffech drafod eich cwrs penodol, e-bostiwch ntg@planned.org.uk.

Dydw i ddim yn cael fy nhalu ond rydw i'n gwirfoddoli i sefydliad sy'n gysylltiedig â'r sector twristiaeth, a ydw i'n gymwys i gystadlu?

Ydych, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion o ran oedran. Gall y gweithlu gwirfoddoli fod yn bwysig iawn i rai mathau o sefydliadau, a gall y profiad fod yn hanfodol i'r gwirfoddolwyr hynny am sawl rheswm.

Rhowch wybod i ni beth yw manylion y sefydliad rydych chi'n gweithio iddo ar y ffurflen gais, a gallwn ddilyn y mater os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer.

Rwy'n gweithio i fusnes twristiaeth ond ar ffyrlo ar hyn o bryd, a ydw i'n gymwys?

Ydych, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r gofynion o ran oedran. A fydddech cystal â rhoi manylion eich swydd ar eich ffurflen gais, a gallwn ddilyn hyn i fyny os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer. Os ydych chi'n cael eich rhoi ar y cynllun ffyrlo ar ôl i chi gyflwyno eich cais neu os oes unrhyw agwedd arall ar eich cyflogaeth yn newid, mae eich cais yn parhau i fod yn ddilys.

Rwy'n gweithio i fusnes twristiaeth, ond beth os yw fy swydd yn dod i ben ar ôl cyflwyno cais?

Mae eich cais yn parhau i fod yn ddilys os yw eich swydd yn dod i ben gyda busnes twristiaeth naill ai cyn neu ar ôl i chi gyflwyno cais.

Mae hwn yn gyfnod anodd iawn i'r sector twristiaeth, ac mae'n anodd iawn i unigolion sydd wedi colli swyddi neu sydd mewn risg o hynny o ganlyniad i'r pandemig byd-eang. Bydd ceisiadau gan bobl sydd wedi colli eu swydd yn y sector ers Mawrth 2020 yn parhau i gael eu hystyried yn ddilys. A fydddech cystal â chynnwys manylion y swydd honno ar y ffurflen gais, a gallwn ddilyn hyn i fyny os ydych chi'n cyrraedd y rhestr fer.

Rwy'n gweithio/astudio yng Nghymru ond dydw i ddim yn hanu o Gymru'n wreiddiol, a ydw i'n gymwys i gystadlu?

Ydych. Mae'r gystadleuaeth yn agored i bobl o bob cenedl, waeth a ydych chi o Gymru ai peidio, o rywle arall yn y DU neu rywle arall yn y byd, cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf eraill sydd yn y canllawiau gwneud cais.

Rydw i wedi cystadlu yn y gorffennol, ga'i gystadlu eto?

Cewch, cyn belled nad ydych chi'n defnyddio unrhyw ddeunydd a baratowyd ar gyfer cynnig blaenorol. Bydd y beirniaid yn deall ei bod yn anorfod y bydd rhai themâu'n debyg, ond dylai'r holl waith fod yn gwbl wreiddiol.

Alla i gydweithio ag eraill, a chyflwyno cais ar y cyd?

Na, mae hon yn gystadleuaeth ar gyfer unigolion, ac felly dylai ceisiadau gynrychioli creadigrwydd ac ymdrech waith yr unigolyn yn unig.

Os oes gennych chi anaf neu anabledd sy'n effeithio ar eich symudedd, eich symudiadau neu eich sgiliau echddygol ac y bydddech angen cymorth gan bobl eraill fel arfer, mae'n iawn os yw pobl yn eich helpu mewn ffordd debyg fel y gallwch greu eich cais.

Creu cais

Beth sydd angen i fi ei wneud os ydw i am roi cynnig ar y gystadleuaeth?

Eleni mae yna ddau gwestiwn y mae gofyn i'r cystadleuwyr eu hateb, a dylen nhw wneud hynny ar ffurf 'Ymateb Digidol'. Dyma'r cwestiynau:

- Sut dylai twristiaeth yng Nghymru edrych yn y dyfodol?
- A pha sgiliau a hyfforddiant fydd eu hangen ar y genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol y maes twristiaeth i gefnogi'r datblygiad cynaliadwy hwn?

Dylai'r rhai sydd am roi cynnig ar y gystadleuaeth feddwl am eu hatebion mewn perthynas ag un o bedwar categori, a dylai eu hymatebion gyfeirio'n benodol at y categori o'u dewis.

- **Diwydiant** a seilwaith twristiaeth
- Adnoddau **digidol** a thechnoleg
- **Yr amgylchedd** ac ecoleg
- **Cymunedau** lleol

Mae rhagor o fanylion am yr hyn sy'n ofynnol ar gael yn y canllawiau gwneud cais.

Ga'i gystadlu mewn mwy nag un categori?

Na, dim ond un cynnig y caniateir i unigolion gyflwyno bob blwyddyn o'r gystadleuaeth. Mae hyn yn golygu mai dim ond cais ar gyfer un categori y gallwch ei gyflwyno ar y tro.

A ddylwn gystadlu yn y Gymraeg neu yn Saesneg?

Gellir cyflwyno ceisiadau yn y Gymraeg neu yn Saesneg. Does dim angen i ymgeiswyr gyfieithu eu ceisiadau, a bydd ceisiadau'n cael eu trin yn gyfartal waeth beth fo'r iaith a ddefnyddir wrth gystadlu.

Beth sy'n ddisgwyliedig yn yr 'Ymateb Digidol'?

Gall yr Ymateb Digidol fod yn unrhyw beth digidol sydd wedi'i wneud gan yr unigolyn sy'n cyflwyno'r cais sy'n ei alluogi i ymateb i'r cwestiynau. Gall hyn gynnwys gwefan, fideo neu PowerPoint neu gyflwyniad tebyg.

Ni fydd y rhai sy'n cyflwyno cais yn cael eu beirniadu ar sail eu gallu technegol wrth wneud yr Ymateb Digidol, ond byddant yn cael eu beirniadu ar sail eu hateb i'r cwestiwn a'u creadigrwydd.

Cofiwch y dylid gwirio holl elfennau ysgrifenedig yr Ymateb Digidol, yn cynnwys penawdau neu is-deitlau, am eglurder priodol, sillafu a gramadeg.

Gweler y canllawiau gwneud cais am ragor o fanylion.

Beth yw gofynion yr ymateb digidol o ran maint?

Does dim angen i Ymatebion Digidol fod yn rhy fawr; dylai fideos fod yn llai na phum munud o hyd a dylai'r mathau eraill o Ymatebion Digidol y bydd beirniaid yn arsylwi arny'n nhw a'u gwerthuso fod tua'r un hyd.

Gweler y canllawiau gwneud cais am ragor o wybodaeth.

Cyflwyno eich ymateb

Sut dylwn anfon yr ymateb digidol i'w feirniadu?

Bydd angen i ymatebion digidol fod ar gael ac yn hygyrch i feirniaid naill ai drwy wefan agored (e.e. fel fideo ar YouTube neu wefan hygyrch arall) neu ar gael ar unrhyw blatfform ar-lein, yn cynnwys storio cwmwl fel OneDrive neu DropBox, gan ddefnyddio dolen neu ddiogelwch cyfrinair.

Mae'n rhaid rhoi cyfeiriad llawn y wefan neu'r URL yn y Ffurflen gais, ynghyd ag unrhyw fanylion fel enw defnyddiwr neu gyfrinair sydd angen eu defnyddio i gael gwneud cais i'r ffeil. **Ni ddylai** gwneud cais i Ymatebion Digidol gael ei gyfyngu mewn unrhyw ffordd (e.e. dyddiad dod i ben neu gyfyngiadau o ran sawl gwaith y gall y beirniaid wneud cais ato).

Mae Ffurflen gais Gymraeg a Saesneg ar gael ar wefan y Next Tourism Generation (<https://nexttourismgeneration.eu/event/ntg2021-cymraeg/>) a dylid llenwi Ffurflenni Gwneud Cais a'u hanfon drwy e-bost at ntg@planed.org.uk.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'r gystadleuaeth am **hanner nos Ddydd Gwener 30 Ebrill 2021**.

Gweler y canllawiau gwneud cais am ragor o wybodaeth.

Ga'i gyflwyno fy nghais cyn y dyddiad cau?

Cewch. Mae'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau drwy e-bost am hanner nos **Ddydd Gwener 30 Ebrill 2021**, ond byddem yn argymhell yn gryf bod ceisiadau'n cael eu hanfon cyn hyn, lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ni brosesu ceisiadau wrth iddyn nhw gyrraedd, ond bydd yn rhoi rhywfaint o amser i ni hefyd os oes problem wrth i ymgeiswyr gyflwyno eu ceisiadau.

Fydda i'n cael cadarnhad eich bod wedi derbyn y cais y byddaf wedi'i gyflwyno?

Dylech anfon ffurflenni gwneud cais drwy e-bost at ntg@planed.org.uk. Byddwch yn derbyn ymateb awtomatig o'r blwch negeseuon e-bost hwn, ond bydd aelod staff yn ceisio anfon negeseuon e-bost unigol at bob ymgeisydd i gydnabod derbyn y ffurflen gais o fewn 3 diwrnod gwaith.

Oherwydd ein bod yn debygol o dderbyn mwy o geisiadau yn ystod y diwrnodau olaf cyn y dyddiad cau (30 Ebrill 2021), byddem yn argymhell eich bod ceisio cyflwyno ceisiadau o leiaf wythnos cyn hyn, er mwyn sicrhau bod gennym y gallu i roi cydnabyddiaeth bersonol.

Perchnogaeth a defnyddio'r gwaith mewn ffyrdd eraill

Pwy sy'n berchen ar yr ymateb digidol unwaith rydw i wedi'i baratoi?

Bydd Ymatebion Digidol yn parhau i fod yn eiddo i'r rhai sydd wedi eu creu a'u cyflwyno.

Os oes unrhyw un o drefnwyr y gystadleuaeth am rannu neu ddefnyddio'r Ymateb Digidol mewn unrhyw ffordd ac eithrio at ddibenion beirniadu'r gystadleuaeth hon, byddwn yn cysylltu â chi'n ysgrifenedig i drafod hyn. Ni fydd eich ymateb yn y trafodaethau hyn yn effeithio ar y ffordd y bydd eich cais yn cael ei feirniadu.

Alla i ddefnyddio'r ymateb digidol ar gyfer unrhyw beth arall, e.e. gwaith cwrs?

Eich eiddo chi yw'r ymateb digidol ac ni fyddwn yn eich atal rhag ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw beth arall. Fodd bynnag, dylech wirio bob amser a oes unrhyw amodau neu delerau ynghlwm wrth y ffordd arall rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio a allai eich rhwystro rhag gwneud hyn.

Os ydych yn bwriadu ei defnyddio ar gyfer eich gwaith cwrs, gwiriwch hynny gyda'ch tiwtor; os hoffech ei gyflwyno i gystadleuaeth wahanol yna gwiriwch amodau'r gystadleuaeth honno.

Beirniadu

Credaf y gallwn fod yn feirniad ar gyfer y gystadleuaeth, beth ddylwn i ei wneud?

Os ydych chi'n gweithio yn y sector twristiaeth, hamdden neu letygarwch mewn unrhyw rôl, neu os yw eich rôl yn cynnwys rhywfaint o waith yn y meysydd hynny, a'ch bod yn credu y gallech chi helpu i feirniadu'r gystadleuaeth, hoffem glywed gennych.

E-bostiwch ntg@planned.org.uk os hoffech chi wybod mwy am fod yn feirniad.

Nodwch na fydd beirniaid y gystadleuaeth yn gymwys i gystadlu.

Sut byddwch yn sicrhau annibyniaeth y panel beirniadu?

Mae'r beirniaid yn cynnwys amrywiaeth o feirniaid annibynnol o bob rhan o'r sector twristiaeth mewn lleoliadau ledled Cymru. Bydd canllawiau llym yn atal unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau, a bydd y broses o farcio ceisiadau'n cael ei goruchwyllo gan banel er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder.

Pryd fydd y ceisiadau'n cael eu beirniadu?

Bydd y deunydd yn cael ei anfon at y beirniaid i'w farcio yn fuan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r gystadleuaeth. Y gobaith yw y bydd ceisiadau'n cael eu marcio erbyn diwedd mis Mai, ac y gellir gwneud unrhyw waith cymedroli bryd hynny.

Enillwyr a gwobrau

Pryd fydd ceisiadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ac enillwyr yn cael eu hysbysu?

Ein gobaith yw y byddwn yn hysbysu ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn gynnar ym mis Mehefin. Gan ddiwynnu ar faint o geisiadau a gawn, efallai na fydd modd i ni hysbysu ymgeiswyr aflwyddiannus, ond os ydych chi angen esboniad, e-bostiwch ntg@planned.org.uk.

Pryd fydd y symposiwm sgiliau a'r seremoni wobrwyo'n cael eu cynnal?

Ein gobaith yw y byddan nhw'n cael eu cynnal yn gynnar yn yr haf. Byddwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgeiswyr, ac erbyn yr amser y bydd y beirniaid wedi dewis y ceisiadau sydd wedi cyrraedd y rhestr fer, byddwn yn gallu eu hysbysu o fanylion y symposiwm a'r seremoni wobrwyo.

Sut bydd y seremoni wobrwyo a'r digwyddiad symposiwm yn cael eu cynnal os yw lefel cyfyngiadau COVID yn eich rhwystro rhag cynnal digwyddiad?

Bydd y digwyddiadau'n cyd-fynd yn gaeth â rheoliadau COVID ar adeg y digwyddiad. Er mwyn sicrhau diogelwch y rhai sy'n gweithio ar y prosiect, yn ogystal â phawb arall sy'n mynychu, bydd y gwaith o gynllunio ar gyfer y digwyddiad yn cynnwys elfen rithwir sylweddol.

Efallai bydd y rheoliadau ar y pryd yn sicrhau y gellir cael digwyddiad wyneb yn wyneb, ond bydd angen i dîm y prosiect fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw ar sail nifer o ffactorau. Oherwydd hyn, bydd yn ofynnol cael elfen ddigidol ar waith, ac rydym yn gobeithio y bydd y digwyddiad yn gallu bod yn gymysgedd o wyneb yn wyneb a digidol hyd yn oed.

Bydd trefniadau ar waith erbyn yr adeg y bydd yr ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu hysbysu, a byddwn yn gallu hysbysu'r holl gyfranogwyr ar yr adeg honno.